BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR, 18, 2025

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Chwefror 18, 2025 am 7:30 o'r gloch.
www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Gerallt Griffith (Cadeirydd), Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Robin Jones, Llion Williams. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.
Yn bresennol hefyd oedd Heledd Parri a Chloe Jones o Hwyluswyr Tai Gwledig, Grŵp Cynefin

1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

Roedd Heledd Parri a Chloe Jones yn bresennol i drafod sut i fynd ymlaen i ymgynghori ac arolygu yr angen am dai yn Llanfachreth.

Wedi'r drafodaeth penderfynwyd i Hwyluswyr Tai Gwledig cydweithio gydag Adran Tai ac Eiddo ynglŷn â'r mater .

2. Ymddiheuriadau:

Ni dderbynwyd ymddiheuriadau.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 21, 2025.

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 21, 2025.

Eitem 11.b. Rhoddwyd (24/1/2-25) hysbysiad am yr angen i lenwi seddi gwag ar ein hysbysfyrddau. Dyddiad cau yw14/2/2025.

Ni dderbyniwyd ymateb i'r hysbysiad.

Eitem 5., Eitem 10.1. Llythyr (24/1/2025) oddi wrth Cerys Williams, Rheolwr Prosiect, Adran Tai ac Eiddo yn rhoi gwybod bydd yr Adran yn cynnal ail sesiwn agored i rannu cynlluniau drafft o'r safle.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (27/1/2025) oddi wrth Heledd Parri, Grŵp Cynefin yn gofyn am gyfarfod i drafod Arolwg Tai Lanfachreth.

Rhoddwyd gwybod mae Adran Tai ac Eiddo yn trefnu ail sesiwn ac wedi'r sesiwn cawn benderfynu os mae angen ei gwasanaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Gan fod y Clerc wedi camddallt ein penderfyniad ynglŷn â Rheolwr Cartrefi Fforddiadwy, Grŵp Cynefin i fod yn bresennol yn ein cyfarfod, rhoddwyd gwahoddiad iddi (11/2/2025) fod yn bresennol yn ein cyfarfod.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/1/2025) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am Cynhadledd Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2025 bydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor ar 14/2/2025 am 9.30yb – 4:00yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (24/1/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd (trwy law Delyth) yn rhoi gwybod bydd ffordd o Dolgyfeiliau i Gelli Goch ar yr A470 ar gau ar 23/1/2025 am un diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod. Mae'r gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch yn ystod gwaith at geblau ar ran Openreach.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (24/1/2025) oddi wrth Siân Gwenllian AS dros Arfon yn gofyn am gefnogaeth i'r ymgyrch o sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor. Amgáu mae draft llythyr wedi ei baratoi i anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon y llythyr i gefnogi'r ymgyrch.

ch. Llythyr (27/1/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith agor llwybr a gosod 2 bostyn cyfeirbwyntio ar Lwybr 16 (ardal Pen y Bryn) yn Hermon. Hefyd bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni yn Brithdir a Llanfachreth ar 3-7/2/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (29/1/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar Zoom ar 11/3/2025 rhwng 4:00 a 6:00yw. Y mater mwyaf pwysig bydd yn cael ei drafod i'w newid statws cyfreithiol y mudiad ac i wneud hyn mae angen cael penderfyniad mwyafrif o leiaf 20% o'r aelodau. Mae hyn yn golygu bydd angen o leiaf 140 o gynghorau fod yn bresennol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i Henry fod yn bresennol.

dd. Llythyr (5/2/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent yn cynal cyfarfod gyda Cymorth Cynllunio Cymru i drafod sut mae gwella effeithiolrwydd y system cynllunio ar gyfer yr angen cynyddol am dai, a sut mae'r system yn effeithio ar ddatblygiad a chynaliadwyedd y cymunedau. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal trwy Zoom ar 27/3/2025 o 10:00yb tan 1:30pm.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (5/2/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant yn Chwefror - Mawrth 2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f Llythyr (12/2/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd rhwng Aber Geirw Bach a Pont Aber Geirw, Abergeirw ar gau ar 12/2/2025 am 2 ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod. Mae'r gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch yn ystod gwaith adfer polyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (132/2025) oddi wrth Swyddog Cefnogi Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am arolwg bydd yn cael ei wneud i'r cyhoedd rhoi barn ar beth sy'n bwysig i drigolion a chymunedau'r sir.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (29/1/2025) oddi wrth Carys Jones berchennog fferm Tŷ Nant, Brithdir. Mae hi mewn trafodaeth â'r Parc i godi 4 tŷ fforddiadwy ar ei thir. Mae hi o'r farn bod prinder tir i bobl ifanc yn yr ardal i gael tai fforddiadwy. Mae hi angen arolwg ar y sefyllfa i godi'r tai fforddiadwy.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am sylwadau.

Rhoddwyd gwybod (1/2/2025) i Carys Jones ni allwn ei chynorthwyo gyda'r cais ac iddi ddelio'r mater gyda'r Parc fel yr Awdurdod Cynllunio.

b Llythyr (6/2/2025) yn rhoi gwybod bod y Parc wedi cadarnhau y Cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd ymwneud a newid defnydd tŷ preswyl i fod yn ail gartref, llety gwyliau tymor-byr neu ddefnydd cymysg penodol. I newid eiddo preswyl bydd rhaid cael caniatâd cynllunio. Bydd yr Erthygl yn dod i rym ar 1/6/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Cais Cynllunio NP5/54/419G. Lleoli Cwt Bugail fel rhan o gynllun arallgyfeirio fferm Beudy Singrig, Cefn Braich, Rhydymain.

Anfonwyd y lcais i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

a. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Cerebral Palsy Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Llên y Llannau, Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.

Llythyr (17/2/2025) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

b. Llythyr (14/11/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 o dan adran 137 (1) a (3) £10.81 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £10.81 x 603 = £6,518.43.

c. Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Ambiwlans Awyr Cymru - £250
Llên y Llannau - £50.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth - £350.
Urdd Gobaith Cymru - £100.

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £350

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Brithdir: £800
Neuadd Rhydygorlan: £800
Neuadd Llanfachreth: £800
Neuadd Rhydymain: £800

Cyfanswm = £4,300.00.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/1/2025: £1,186.17.
Balans yn y banc ar 29/1/2025: £10,623.24.

9. Archwilio

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

11. Materion yr Aelodau

c. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg 2024 - 2025.
Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd cadarnhau'r Rhaglen Asesiad Risg.

ch. Mae angen cadarnhau Asedion 2024 – 2025
Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd cadarnhau'r Asedion.

d. Mae angen cadarnhau ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad, Cynllun Hyfforddiant.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Nid yw'r polisiau wedi cael eu newid yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

Llofnod: Dyddiad: